ATODIAD 4

# AIL-DDYLUNIO STRATEGOL GWASANAETH BIPBC

# RHESTR WIRIO A FFRAMWAITH BLAENORIAETH

DRAFT

## DEFNYDDIO RHESTR WIRIO A FFRAMWAITH BLAENORIAETHU AIL-DDYLUNIO STRATEGOL GWASANAETH

Mae'r rhestr wirio i'w defnyddio wrth ddatblygu cynigion ar gyfer newid strategol i wasanaethau. Bydd defnyddio'r rhestr wirio yn sicrhau bod y dystiolaeth sydd ei hangen i asesu blaenoriaeth berthynol y cynigion ar gael i'w harchwilio.

Bydd y fframwaith blaenoriaethu yn galluogi asesiad strwythuredig o'r dystiolaeth yn erbyn yr egwyddorion yn y Strategaeth Glinigol. Bydd yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch blaenoriaeth berthynol pob cynnig ac i gytuno ar y cynigion i'w symud ymlaen drwy broses ddatblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol BIPBC a/neu Gynllun Integredig Tymor Canolig (IMTP).

## CAM 1 - DYNODI MEYSYDD AR GYFER AIL-DDYLUNIAD STRATEGOL GWASANAETH

Amgylchiadau lle gellir ystyried cynnig:

- Yn ymwneud ag ymrwymiad a oedd eisoes yn bodoli y cytunwyd arno'n ffurfiol
- Yn bodloni o leiaf un o feini prawf y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau, fel y nodir isod:
  **Maen Prawf 1**: Mae tystiolaeth bod y canlyniadau i bobl gryn dipyn yn is na darparwyr cymaryddion neu fod pryderon sylweddol o ran diogelwch cleifion.
  **Maen Prawf 2**: Nid oes unrhyw obaith ymarferol y bydd y gwasanaeth yn bodloni safonau proffesiynol a/neu'r maint lleiaf o weithgarwch a argymhellir i gynnal safonau uchel o ofal.
  **Maen Prawf 3**: Nid yw'r gweithlu sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel ac yn gynaliadwy ar gael oherwydd na ellir ei recriwtio, ei ddatblygu na'i gadw - neu dim ond trwy ddibynnu ar staff asiantaeth neu locwm y gellir ei gyflenwi.
  **Maen Prawf 4:** Ceir consensws proffesiynol ar rinweddau ad-drefnu gwasanaethau i ddarparu llwybr gwell neu fodel gwasanaeth newydd.
  **Maen Prawf 5:** Mae cefnogaeth gyhoeddus sylweddol neu fandad democrataidd i newid model gwasanaeth.
- Yn cyflawni amcanion strategol BIPBC yn unol â Strategaeth Gwasanaethau Clinigol BIPBC, gan gynnwys gwelliannau i ansawdd, canlyniadau a phrofiad.

## CAM 2 - GOFYNION TYSTIOLAETH AC ASESIAD

Bydd gwaith asesu a chymharu strwythuredig yn ystyried pedwar ‘Maes Tystiolaeth’:

- **Y yw'n gweithio?**
- **A yw'n ychwanegu gwerth?**

- **A yw'n gost resymol i'r cyhoedd?**
- **Ai dyma'r ffordd orau o ddarparu'r gwasanaeth?**

Mae'r 'Meysydd Tystiolaeth' wedi'u rhannu'n 12 'Ffactor i'w Hystyried' y manylir arnynt yn y rhestr wirio, Tabl 1, ar y dudalen nesaf.

DRAFT

**Tabl 1: Rhestr wirio - ffactorau i'w hystyried**

| | Ffactor i'w Ystyried | Cwestiynau Rhestr Wirio |
|---|---|---|
| 1 | **A oes angen newid?** | A yw hwn yn ymrwymiad sydd eisoes yn bodoli y cytunwyd arno'n ffurfiol?<br>A yw meini prawf y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol ar gyfer ad-drefnu gwasanaethau yn berthnasol?<br>A fydd y newid yn cyflawni amcanion strategol BIPBC? |
| 2 | **Effeithiolrwydd Clinigol** | A fydd y newid yn diogelu neu'n gwella ansawdd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau clinigol?<br><br>(a) **Effaith ar ganlyniadau clinigol:** a fydd y cynnig yn gwneud gwahaniaeth positif i ganlyniadau clinigol? A fydd yn lleihau'r niwed (corfforol a seicolegol) y gallai salwch neu gyflwr iechyd ei achosi?<br>(b) **Gofal Iechyd ar Sail Gwerth:** i ba raddau y bydd y newid arfaethedig yn sicrhau budd mesuradwy dros y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol?<br>(c) **Canlyniad a phrofiad y claf**: a fydd effaith positif ar ganlyniadau a phrofiad y claf?<br>(d) **Sylfaen tystiolaeth**: pa sylfaen dystiolaeth wyddonol sydd ar gael? Er enghraifft, canllawiau a safonau cenedlaethol, NICE, meincnodi, ymchwil ac ati.<br>(e) **Cynaliadwyedd:** a fydd gwasanaethau'n fwy cynaliadwy yn dilyn y newid arfaethedig? |
| 3 | **Gwella Iechyd a lles** | A fydd y newid yn cael effaith bositif ar:<br>(a) **Marwolaethau** - achub bywyd,<br>(b) **Hirhoedledd** - ymestyn bywyd,<br>(c) **Ansawdd bywyd a lles cysylltiedig ag iechyd**<br>(d) **Iechyd y boblogaeth** - gwelliannau yn erbyn dangosyddion ffordd o fyw<br>(e) **Lleihau Niwed** |
| 4 | **Ffit Strategol** | A yw'r newid arfaethedig yn gyson ag egwyddorion Strategaeth Gwasanaethau Clinigol BIPBC ac unrhyw strategaethau neu gynlluniau cenedlaethol neu leol perthnasol eraill? |
| 5 | **Anghenion Iechyd y Boblogaeth** | A yw'r cynnig yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth ar hyn o bryd a'r rhai a ragwelir?<br>A yw'r newid yn gymesur? A yw'n gytbwys rhwng anghenion grŵp o gleifion, gofynion y gymuned ehangach a'r angen i barchu hawliau dynol unigolyn? |

DRAFT

| | Ffactor i'w Ystyried | Cwestiynau Rhestr Wirio |
|---|---|---|
| | | Beth fydd yn ei olygu i'r claf unigol, grŵp o gleifion a'r gymuned ehangach? |
| 6 | **Anghydraddoldebau iechyd** | A fydd y cynnig yn cyfrannu at leihau neu ehangu anghydraddoldebau iechyd ymhlith ein poblogaeth? |
| 7 | **Fforddiadwyedd** | Faint fydd y newid yn ei gostio - cyfalaf a refeniw?<br>A ellir ailddyrannu adnoddau presennol i ariannu'r newid? Os na, a oes ffynonellau ariannu eraill ar gael?<br>A yw'r cynnig yn gyfle i ryddhau adnoddau ar gyfer defnyddiau amgen? Mae adnoddau'n cynnwys amser staff, ystâd a chyllid. |
| 8 | **Gofal Iechyd ar sail Gwerth** | A yw'r cynnig yn gyson ag egwyddorion Gofal Iechyd ar sail Gwerth?<br>Beth yw costau cyfle'r newid i BIPBC a, lle bo'n berthnasol, ein partneriaid? |
| 9 | **Cyfleoedd Trawsnewid** | A yw llwybrau o un pen i'r llall wedi'u mapio – yn gyfredol ac yn optimaidd?<br>A oes tystiolaeth mai dyma'r ffordd orau o ddarparu'r gwasanaeth?<br>Pa gyfleoedd sydd ar gael i gyflawni mewn partneriaeth?<br>Beth yw'r cyfleoedd trawsnewid – gweithlu'n symud i'r chwith, ystad, defnydd o dechnoleg?<br>A yw'r cynnig yn cefnogi ac yn gwella darpariaeth integredig o iechyd a gofal cymdeithasol? |
| 10 | **Effaith ar wasanaethau mewn mannau eraill** | A oes effaith ar feysydd gwasanaeth eraill BIPBC?<br>A oes effaith ar wasanaethau nad ydynt yn rhai BIPBC? |
| 11 | **Gweithlu** | A fydd gofynion y gweithlu wedi'u newid?<br>A fydd y newid yn helpu gyda recriwtio a chadw staff?<br>A fydd y newid yn helpu i fodloni anghenion hyfforddiant ac addysg? |
| 12 | **Hygyrchedd** | Ydi problemau hygyrchedd e.e. trafnidiaeth, daearyddiaeth, iaith ac ati wedi cael eu hystyried? |

DRAFT

Mae angen ffurflen 'Cynnig Newid Strategol' wedi'i chwblhau, Atodiad A, ar gyfer pob cyflwyniad.

**CAM 3: CYMHWYSO FFRAMWAITH BLAENORIAETHU A LLYWODRAETHU**

**(Mewn datblygiad i ddilyn)**

**ATODIAD A**

## RHESTR WIRIO CYNNIG NEWID STRATEGOL

| | Ffactorau i'w hystyried | Disgrifiad a thystiolaeth ategol | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| | **A yw'n gweithio?** | | |
| 1 | A oes angen newid? | | |
| 2 | Effeithiolrwydd Clinigol | | |
| 3 | Gwella Iechyd | | |
| | **A yw'n Ychwanegu Gwerth i Gymdeithas?** | | |
| 4 | Ffit Strategol | | |
| 5 | Anghenion iechyd y boblogaeth | | |
| 6 | Anghydraddoldebau iechyd | | |
| | **A yw'n Gost Rhesymol i'r Cyhoedd?** | | |
| 7 | Fforddiadwyedd | | |
| 8 | Gofal Iechyd ar sail Gwerth | | |
| | **Ai dyma'r Ffordd Orau o Ddarparu'r Gwasanaeth?** | | |
| 9 | Cyfleoedd Trawsnewid | | |
| 10 | Effaith ar Wasanaethau mewn Mannau Eraill | | |
| 11 | Gweithlu | | |
| 12 | Mynediad | | |

DRAFT

**ATODIAD B**

## STRATEGAETH GWASANAETHAU CLINIGOL BIPBC – TEMPLED BLAENORIAETHU

**(I DDILYN)**

DRAFT